**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/1651/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@Senedd.Cymru

22nd Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai a'r gwaith y mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi'i wneud i lunio'r adroddiad ar faterion trawsbynciol sy'n effeithio ar y rhaglen Fframweithiau Cyffredin.

Mae gan Fframweithiau Cyffredin y potensial i fod yn fecanweithiau llywodraethu parhaus, hyblyg a chynyddol arwyddocaol ar gyfer y meysydd polisi a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE. Gallant helpu i hwyluso aliniad polisi a rheoli gwahaniaethau rheoleiddiol rhwng y pedair llywodraeth. Mae monitro'n effeithiol y materion hirdymor a materion sy'n dod i'r amlwg ar lefel rhaglen, ac sy'n effeithio ar y rhaglen, yn rhan annatod o sicrhau bod Fframweithiau Cyffredin yn dod yn fodel ar gyfer cydweithio rhynglywodraethol da.

Ym mis Chwefror, cadeiriais gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol lle cytunodd Gweinidogion (a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon) ar bwysigrwydd parhau i adolygu materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar fframweithiau. Mae swyddogion yn monitro effaith unrhyw faterion sy'n effeithio ar y rhaglen ac yn ceisio eu lliniaru, a byddant yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Yng nghyfarfod mis Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol hefyd ar fodel ar gyfer adrodd yn y dyfodol i bwyllgorau deddfwrfeydd ar ôl cwblhau'r fframweithiau.

Fel y byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol, ni allaf ymateb yn ffurfiol i argymhellion pwyllgorau nes bod y gwaith craffu wedi'i gwblhau gan bob un o bedair deddfwrfa'r DU. Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei mabwysiadu gan bedair llywodraeth y DU. Mae'n cyd-fynd â'r ysbryd gweithio pedair gwlad a'r consensws sy'n ymgorffori'r rhaglen Fframweithiau



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyffredin. Byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith eto unwaith y bydd yr argymhellion wedi dod i law gan holl ddeddfwrfeydd y DU a'r pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd i'w gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r rhain.

Hoffwn ddiolch eto i'r Pwyllgor am ei rôl barhaus wrth oruchwylio'r Fframweithiau Cyffredin. Edrychaf ymlaen at y ddadl ar fframweithiau ar 12 Gorffennaf.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution